

POLISI GWAITH CARTREF



Ysgol Gynradd y Gelli

Dyddiad mabwysiadu: Medi 2026

Dyddiad adolygu: Medi 2029

Cymeradwywyd gan: *Ffion Lovgreen*

1. Cyflwyniad

Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o brofiad dysgu ein disgyblion. Ei brif bwrpas yw cefnogi ac atgyfnerthu'r dysgu sy'n digwydd yn yr ysgol, datblygu annibyniaeth a chyfrifoldeb, a chryfhau'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod amser teuluol, chwarae, gorffwys a gweithgareddau allgyrsiol hefyd yn bwysig i les a datblygiad plentyn. Felly, bydd gwaith cartref yn briodol, ystyrlon ac o fewn gallu'r plentyn.

2. Nodau'r Polisi

Nod y polisi hwn yw:

- cefnogi ac atgyfnerthu dysgu yn yr ysgol;
- datblygu sgiliau annibynnol ac arferion astudio da;
- rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu sgiliau;
- annog darllen yn rheolaidd er pleser ac at ddibenion dysgu;
- datblygu cyfrifoldeb personol;

- annog rhieni a gofalwyr i fod yn rhan o ddysgu eu plant;
 - sicrhau bod gwaith cartref yn deg, cynhwysol ac yn hygyrch i bob plentyn.
-

3. Mathau o Waith Cartref

Gall y gwaith cartref gynnwys:

Darllen

- darllen yn annibynnol;
- darllen gyda rhiant neu ofalwr;
- rhannu llyfrau a thrafod straeon;
- ymweld â'r llyfrgell;
- gweithgareddau sy'n datblygu cariad at ddarllen.

Llythrennedd

- ymarfer sillafu;
- gweithgareddau geirfa;
- ysgrifennu byr;
- gweithgareddau creadigol sy'n gysylltiedig â gwaith dosbarth.

Mathemateg

- ymarfer ffeithiau rhif;
- tablau llusgi;
- gemau mathemategol;
- datrys problemau;
- gweithgareddau mathemategol ymarferol yn y cartref.

Gwaith thematig neu draws-gwricwlaidd

Gall disgyblion gael tasgau sy'n gysylltiedig â thema neu faes dysgu, er enghraifft:

- ymchwilio;
- casglu gwybodaeth;
- prosiectau creadigol;
- arsylwi neu gofnodi;
- gweithgareddau ymarferol gyda'r teulu.

Gweithgareddau lles a dysgu ehangach

Gall yr ysgol annog gweithgareddau megis:

- coginio;
 - chwarae yn yr awyr agored;
 - gweithgareddau corfforol;
 - ymweld â mannau o ddiddordeb;
 - trafod digwyddiadau cyfoes;
 - gweithgareddau creadigol.
-

4. Disgwyliadau yn ôl Cyfnod

Bydd faint a math y gwaith cartref yn amrywio yn ôl oedran a cham datblygu.

Blynyddoedd Cynnar: Bydd dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn dod a bagiau darllen gartref adref gan gychwyn Ionawr 2027.

Blynyddoedd 1 a 2: Bydd pwyslais ar ddarllen, rhannu llyfrau, sgiliau rhif sylfaenol a gweithgareddau ymarferol byr. Bydd Gwaith Cartref yn cael ei osod pob nos Wener i'w ddychwelyd erbyn fore Mercher.

Blynyddoedd 3 - 6: Bydd mwy o bwyslais ar ddarllen annibynnol, sillafu, tablau lluos, mathemateg a thasgau cysylltiedig â gwaith dosbarth.

Gosodir Gwaith Cartref yn wythnosol (onibai fod hyd tasg y gwaith cartref yn gofyn am rhagor o amser i'w gwblhau)

Gosodir y Gwaith Cartref mewn llyfr / Google Classroom ond bydd copi papur ar gael i'r rhai sydd ei angen.

Disgwyllir y Gwaith Cartref yn ôl erbyn dydd Mercher yr wythnos ganlynol (onibai fod y dasg yn un estynedig)

5. Darllen yn y Cartref

Mae darllen yn rhan ganolog o'n disgwyliadau ar gyfer gwaith cartref. Bydd llyfrau darllen yn dod adref yn wythnosol ar ddydd Gwener a disgwyllir y llyfrau

a'r llyfr **Cofnod Darllen** yn ôl pob dydd Mercher. Caiff y plant sydd yn darllen llyfrau swmpus barhau i ddarllen yr un llyfr hyd nes ei orffen.

Anogir pob plentyn i ddarllen yn rheolaidd, boed hynny drwy:

- llyfrau ysgol;
- llyfrau o'r cartref;
- llyfrau llyfrgell;
- cylchgronau neu ddeunydd darllen addas;
- adnoddau digidol.

Anogir rhieni a gofalmwr i drafod yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddarllen a gofyn cwestiynau am y stori, cymeriadau, geirfa a syniadau. Bydd cyfle i rhieni ysgrifennu sylwadau yn y llyfr **Cyfnod Darllen** unwaith yr wythnos.

6. Rôl yr Athro

Bydd athrawon yn:

- gosod gwaith cartref sydd â phwrrpas addysgol clir;
- sicrhau bod y gwaith yn briodol i oedran a gallu;
- rhoi cyfarwyddiadau clir;
- ystyried anghenion unigol disgyblion;
- darparu adborth priodol;
- monitro cyfranogiad a chynnydd;
- cyfathrebu â rhieni a gofalmwr pan fo angen.

7. Rôl y Disgybl

Disgwylir i ddisgyblion:

- gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith cartref;
- gwneud eu gorau glas;
- cwblhau tasgau o fewn yr amserlen;
- gofalu am unrhyw adnoddau a roddir iddynt;
- gofyn am help os nad ydynt yn deall tasg;
- dod â gwaith neu adnoddau yn ôl i'r ysgol pan fo angen.

8. Rôl Rhieni a Gofalwyr

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhieni a gofalwyr.

Gall rhieni a gofalwyr helpu drwy:

- ddarparu amser a lle addas ar gyfer gwaith;
- annog darllen rheolaidd;
- dangos diddordeb yn nysgu'r plentyn;
- annog y plentyn i weithio'n annibynnol;
- helpu i egluro cyfarwyddiadau pan fo angen;
- cyfathrebu â'r ysgol os oes unrhyw anawsterau.

Nid disgwylir i rieni na gofalwyr wneud y gwaith ar ran eu plentyn.

9. Technoleg Ddigidol

Mae gan pob disgybl gyfrif HWB. Mae cyfoeth o gemau ac apiau addysgiadol ar gael yn rhad ac am ddim arno i atgyfnerthu sgiliau eich plentyn.

Mae ap Tric a Chlic, Cyw a Betsan a Roco yn gallu atgyfnerthu sgiliau llythrennedd cynnar dysgwyr Meithrin - Blwyddyn 2

Mae gan ddigybllion o Blwyddyn 3 i 6 fanylion cofnodi ar gyfer defnyddio:

- Darllen.Co
- Reading Eggs
- Mathletics

Pan ddefnyddir technoleg ar gyfer gwaith cartref, bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- y dasg yn briodol ac yn hygyrch;
 - cyfarwyddiadau clir yn cael eu darparu;
 - dewis arall ar gael lle bo angen;
 - disgybllion yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd diogelwch ar-lein.
-

10. Monitro ac Adborth

Bydd gwaith cartref yn cael ei fonitro mewn ffordd briodol i'r dasg.

Gall hyn gynnwys:

- marcio neu roi adborth;
- trafodaeth yn y dosbarth;
- dathlu cyflawniadau;
- defnyddio gwaith cartref fel sail ar gyfer gweithgareddau dilynol;
- adborth llafar neu ysgrifenedig.

Ni fydd pob tasg yn cael ei farcio'n ffurfiol. Bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar effaith y gwaith cartref ar ddysgu.